# PWYLLGOR ARCHWILIO 17/2/15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, John B. Hughes, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Aled Ll. Evans, Aeron M. Jones, Sion Wyn Jones a Mr John Pollard.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2014, fel rhai cywir.

## 3. CYLLIDEB 2015/16 A STRATEGAETH ARIANNOL 2015/16 – 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau ar y gyllideb er mwyn rhoddi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio graffu'r wybodaeth o ran ei briodoldeb ariannol cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet ar 19 Chwefror.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau. Nododd yr argymhellir ystyried cynyddu'r Dreth Cyngor rhwng 3.5% a 4.5% yn 2015/16 er mwyn isafu'r toriadau yn 2016/17. Ychwanegodd y byddai cynyddu'r Dreth Cyngor a defnyddio £2m o'r balansau cyffredinol yn galluogi cynnal ymgynghoriad cynhwysol ar y toriadau posib cyn gweithredu.

Cymerodd y Pennaeth Cyllid y cyfle i ddiolch i'r aelodau a fynychodd seminarau yng nghyswllt y Strategaeth Ariannol. Pwysleisiodd os na fydd codiad yn y dreth byddai rhaid cynyddu'r toriadau ar gyfer 2016/17.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Bod y seminarau a gynhaliwyd ar y Strategaeth Ariannol wedi bod o gymorth;
- Mai'r penderfyniad cyfrifol fyddai cynyddu'r Dreth Cyngor 4.5%;
- Bod codiad yn y dreth yn anodd i rai sy'n gweithio gan nad yw cyflogau'n cynyddu a dylid cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Cyngor;
- Pobl yng nghefn gwlad yn cwestiynu beth maent yn derbyn o ran gwasanaethau i gyfiawnhau cynyddu'r dreth;
- Bod Gwynedd gyfan yng nghefn gwlad, a chost y pen o wasanaethau yn is mewn ardaloedd mwy trefol;

- Bod rhwyd diogelwch i'r unigolion sy'n derbyn cymorth ("budd-dal") tuag at eu Treth Cyngor, ond fod pryder am y rhai hynny sydd ar incwm ychydig uwch na'r trothwy i dderbyn cymorth;
- Y dylid adnabod y toriadau cyn penderfynu ar gynyddu'r Dreth Cyngor;
- Nad oedd y Dreth Gyngor yn cynyddu yn Lloegr. A oedd Llywodraeth Cymru wedi cael arian ar gyfer gwneud hyn hefyd yng Nghymru?
- Gan ddefnyddio'r balansau dim ond gohirio'r boen y gwneir, ond roedd yr aelod yn derbyn y drefn a gobeithio y bydd consensws o ran y toriadau;
- A ellir gofyn i ysgolion ddefnyddio eu balansau er mwyn helpu'r sefyllfa ariannol?

Yng nghyswllt rhewi'r Dreth Cyngor yn Lloegr, nodwyd bod y materion yma tu hwnt i reolaeth y Cyngor a bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi'r arian a dderbyniwyd i'r perwyl hwn i'r Gwasanaeth Iechyd.

Nodwyd bod reserfau a chyllidebau ysgolion yn gyfrifoldeb Llywodraethwyr ac nad oedd gan y Cyngor hawl fel awdurdod, er yn cyfarwyddo ysgolion i ostwng eu balansau gan eu defnyddio at addysg y plant, i orfodi hyn.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y rhoddir rhestr lawn o'r toriadau posib gerbron yr aelodau yn y misoedd nesaf er mwyn eu trin a'u trafod.

**PENDERFYNWYD argymell yr adroddiad i'r Cabinet ac mai barn y Pwyllgor oedd bod cynyddu'r Dreth Cyngor 4.5% yn rhesymol.**

**4. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor argymell i'r Cyngor ar 5 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys, Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2015/16, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.

Gosododd y Pennaeth Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd y Rheolwr Buddsoddi ar gynnwys yr adroddiad.

Nodwyd gyda diolch y cyfle i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r swyddogion ac i ymgynghorydd arbenigol o gwmni Arlingclose mewn cyfarfod briffio ar 30 Ionawr, 2015.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn 5 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiadau A, B, a C), Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2015/16 (Atodiad CH), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad D), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad DD) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**5. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DDEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A'R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2014**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ar newidiadau arfaethedig i adrannau'r Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun

Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 ynglŷn â sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

Cytunwyd ni ddylid gorymateb i'r gofynion, nac ymrwymo i gostau sylweddol diangen wrth sefydlu Bwrdd Pensiynau.

Nodwyd bod y newidiadau arfaethedig, a argymhellir i'r Cyngor Llawn, yn diffinio swyddogaethau, aelodaeth a strwythur gweithredu Bwrdd Pensiwn Gwynedd. Eglurwyd yn ychwanegol i'r argymhelliad a nodir yn yr adroddiad y gofynnir am hawl dirprwyedig i wneud man addasiadau i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Pensiwn Lleol pe cyfyd yr angen.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor:**

**(i) Adolygu adrannau o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r CPLlL, er mwyn sicrhau fod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Lleol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015.**

**(ii) Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu gyda hawl dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud man addasiadau i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Pensiynau Lleol pe cyfyd yr angen.**

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2014)

Cyflwynwyd adroddiad monitro'r Pennaeth Cyllid ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyd-destun ac ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys yr adroddiad. Cyfeiriwyd at sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a nodwyd bod gostyngiad sylweddol o'r lefel gorwariant a ragwelwyd ar ddiwedd yr ail chwarter. Ymhelaethwyd bod gorwariant tebygol yr Adran bron wedi ei haneru a chymerir camau i geisio cryfhau rheolaeth ariannol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Ei fod yn galonogol bod Adrannau yn tanwario ond mai arbedion wedi eu cynllunio yw'r arian yma ac ni fydd ar gael yn y dyfodol;
- Bod risg o ran yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Mewn ymateb i sylwadau aelodau, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod rhaid gwedd newid y ffordd o ddarparu gwasanaethau yn bur fuan neu ni allai'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod angen osgoi twf gwariant gan gymryd camau ariannol a rheolaethol.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2014)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Tynnwyd sylw nad oedd yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2014/15 i 2015/16 yn golygu colled mewn grant.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

**8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2015 i ystyried cynllun cyfalaf Pont Briwet, archwiliad dilyniant 'Porthladdoedd' a oedd wedi derbyn categori barn anfoddhaol a dau archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 13 Medi 2014 a 30 Tachwedd 2014 sef -

a) Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch
b) Canolfannau Hamdden

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Nodwyd yng nghyswllt archwiliad Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch, ei fod yn galonogol bod cylchgrawn 'Which?' wedi rhoi Cyngor Gwynedd ymysg y gorau yng Nghymru ar waith orfodaeth bwyd mewn tabl perfformiad o awdurdodau lleol ac y dylid hysbysebu hyn.

Nododd aelod ei fod yn hynod bwysig bod y Gweithgor wedi ystyried cynllun cyfalaf Pont Briwet oherwydd y risgiau posib.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Eglurodd y Cadeirydd newidiadau yn strwythur staffio Archwilio Mewnol gan nodi mai Luned Fôn Jones oedd y Rheolwr Archwilio ac y byddai'n gyfrifol am waith Archwilio Mewnol o hyn ymlaen. Nodwyd y byddai'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn gyfrifol am oruchwylio gwaith Archwilio Mewnol. Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am ei waith a dymunwyd yn dda i'r ddau swyddog yn eu swyddi newydd.

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2015**
Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 31 Ionawr 2015. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 8 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 Adroddiad arall (memoranda a.y.b)
- 2 o adolygiadau grant
- 4 archwiliad dilyniant

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2014 i 31 Ionawr 2015 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**10. TREFNIADAU DATGELU – YMWYBYDDIAETH O'R POLISI CANU'R GLOCH**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoddi manylion o ganlyniadau arolwg o ymwybyddiaeth staff a'u hagwedd tuag at Bolisi Canu'r Gloch. Nodwyd ei fod yn

allweddol bwysig, yng ngoleuni achosion diweddar megis Rotherham, bod unigolion yn ddigon hyderus yn y trefniadau i fynegi pryder.

Adroddwyd bod yr holiadur wedi ei gyfyngu i staff swyddfa yn unig gan ei fod yn holiadur ar-lein ond bwriedir cynnal ymarferiad tebyg gyda gweithwyr llaw yn 2015/16.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Y byddai'n haws i unigolyn ddod ymlaen pe byddai person annibynnol fel pwynt cyswllt cychwynnol yn hytrach na rheolwr llinell. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod y polisi yn nodi y gallai unigolyn fynd yn uniongyrchol at y Pennaeth Adran neu Archwilio Mewnol;
- Yn synnu bod yr arolwg yn dangos bod 12% o Reolwyr Llinell ddim yn ymwybodol o'r polisi na 18% o'r Adran Adnoddau Dynol;
- Ei fod yn bwysig i gynyddu ymwybyddiaeth o'r polisi;
- Ei fod yn allweddol bwysig bod staff y Cyngor hefo mynediad rhwydd i'r polisi ar y fewnrwyd;
- Bod angen sefydlu trefn ar gyfer Cynghorwyr;
- Bod angen sicrhau bod unigolion yn gwbl hyderus i ddefnyddio'r gyfundrefn;
- A ddylai'r Gweithgor ystyried y mater?
- Y dylai Cynghorwyr dderbyn hyfforddiant ar y Polisi.

Mewn ymateb i'r sylw parthed cynnal Gweithgor i ystyried y mater, awgrymodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y dylid aros i weld canlyniadau arolwg gyda gweithwyr llaw yn 2015/16 a pe dymunir gellir edrych ar y ddau arolwg efo'i gilydd bryd hynny.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) bod yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn ystyried sylwadau'r aelodau yng nghyswllt cryfhau'r trefniadau ymhellach;**

**(ii) bod y Pwyllgor yn ystyried rhoi sylw i'r Polisi Canu'r Gloch mewn cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau ar ôl derbyn canlyniadau arolwg gyda gweithwyr llaw.**

## 11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Ionawr 2015 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 12 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 19 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 48 |
| Wedi ei gau | 2 |
| Cyfanswm | 90 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 12 |

Tynnwyd sylw at yr archwiliadau a oedd wedi eu tynnu o'r Cynllun o ganlyniad i golli 120 diwrnod o adnoddau archwilio. Roedd llai o ddyddiau ar gael na'r hyn oedd wedi ei gynllunio ar ei gyfer ar ddechrau'r flwyddyn gan fod 3 swydd wedi ei ddiddymu oddi ar y strwythur yn gynharach na'r dyddiad bwriedig o 31 Mawrth 2015.

Nodwyd bod cyrraedd y targed o 95% yn ymddangos yn anhebygol erbyn hyn, ond bod holl staff y gwasanaeth yn ymrwymedig i orffen mor agos â phosib at y targed ar gyfer y flwyddyn, ac yn ymwybodol o'r disgwyliadau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15.**

## 12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoi manylion am gynllun drafft o waith yr Adran Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2015/16 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gyda swyddogion.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n dod â'r cynllun terfynol gerbron ym mis Mehefin, ar ôl trafod y cynllun drafft gyda'r adrannau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, yn ddarostyngedig i addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.35pm